



Mynediad i gynnwys a ddarlledir a chynnwys ar- alwad: Amser dal i fyny!

Crynodeb gweithredol

Mae arferion gwyllo teledu pobl wedi'u gwednewid dros y degawd diwethaf. Nid yw pobl wedi'u cyfyngu bellach i wyllo rhaglenni teledu sy'n cael eu darlledu mewn ffyrdd traddodiadol, ac mae ganddyn nhw lawer mwy o ddewis dros yr hyn maen nhw'n ei wyllo, a phryd maen nhw'n ei wyllo.

Ond nid yw'r cyfleoedd newydd hyn ar gael i bawb i'r un graddau. Hyd yn oed heb y gwahaniaeth rhwng teledu y telir amdano a gwasanaethau tanysgrifio a'r rheini sydd ar gael am ddim, siom yw gweld bod nifer o wasanaethau ar-alwad yn eithrio cyfran o'u cynulleidfaoedd posib drwy ddiffyg darpariaeth gwasanaethau mynediad: is-deitlau, disgrifiadau sain neu iaith arwyddion.

Mae gwasanaethau mynediad da yn gallu gwneud gwahaniaeth sylweddol o ran sut mae pob yn rhyngweithio â'r cynnwys sydd ar y teledu. Y nod yw rhoi cyfle i bobl sydd â nam ar y synhwyrâu fwynhau ffilmiau a rhaglenni yn annibynnol, yn union yr un fath ag y byddai pobl heb nam ar y synhwyrâu yn ei wneud. Mae gwasanaethau mynediad yn helpu pobl i uniaethu â'r cynnwys ac mae'n osgoi eu gwthio i'r cyrion. Mae ystod eang o bobl yn eu defnyddio, fel mae Ofcom wedi'i nodi yn y gorffennol: *Nid yw pobl sy'n defnyddio gwasanaethau mynediad yn perthyn yn daclus i grwpiau homogenaidd*¹.

¹ https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0023/19391/guidelines.pdf

Mae pobl sydd â nam ar y golwg neu sydd wedi colli eu clyw yn defnyddio llawer llai ar wasanaethau ar-alwad a dal i fyny, ac mae hyn yn wir am wasanaethau am ddim a gwasanaethau y telir amdanynt. Yn ein hymchwil, dywedodd 44% o oedolion y DU eu bod yn gwylio gwasanaeth ar-alwad neu dal i fyny am ddim, o'i gymharu â 28% o bobl sydd â nam ar y golwg neu'r clyw. Yn yr un modd, dywedodd 41% o oedolion y DU eu bod yn gwylio gwasanaeth ar-alwad neu dal i fyny roedden nhw wedi'i dalu amdano, o'i gymharu â 19% o bobl sydd â nam ar y golwg neu'r clyw. Nid oherwydd nad ydyn nhw eisiau gwylio mae hyn - yn ôl ein hymchwil, mae cryn broblemau ynghylch ymwybyddiaeth ac argaeledd. Mae gofynion statudol i ddarparu gwasanaethau mynediad - sef is-deitlau, iaith arwyddion a disgrifiadau sain - ar gyfer gwasanaethau teledu llinol yn y DU. Ac yn sgil Deddf yr Economi Ddigidol ddiweddar, croesawyd y gofyniad i sicrhau bod gwasanaethau rhaglenni ar-alwad ar gael yn rhwydd i bobl sy'n colli eu golwg neu eu clyw.

Rydym yn ymwybodol iawn o'r ffaith gan Ofcom *y dylai darlledwyr fonitro ansawdd eu gwasanaethau mynediad yn rheolaidd hefyd. Mae grwpiau ffocws ac adborth gan wylwyr unigol yn gallu bod o fudd i ddangos ansawdd*². Gyda'r cefndir hwn, roeddem yn awyddus i ddeall faint o ymwybyddiaeth o wasanaethau mynediad sydd ymhlith y cyhoedd yn y DU a faint sy'n eu defnyddio; ac i fesur boddhad aelodau'r cyhoedd sydd â nam ar y clyw/golwg wrth ddefnyddio'r gwasanaethau mynediad.

Mae ein hymchwil yn tynnu sylw at yr awydd am ddarpariaeth well o wasanaethau mynediad ar draws y sefyllfa ddarlledu. Mae ein hymchwil ansoddol yn awgrymu'n gryf bod angen mwy o ymwybyddiaeth ynghylch yr hyn sydd ar gael, mwy o wybodaeth am sut mae ei ddefnyddio, a gwella ansawdd yr allbwn.

Dywedodd rhai a gymerodd ran yn yr ymchwil ansoddol fod y gwasanaethau mynediad sydd ar gael yn amrywio'n fawr ar draws gwahanol sianeli, llwyfannau a darparwyr gwasanaethau. Roedd hyn, yn rhannol, yn gysylltiedig ag anghysondebau o ran cyfeirio gwasanaethau a gwybodaeth am sut mae cael gafael ar y gwasanaethau. Mae dod o hyd i gynnwys sydd â gwasanaethau mynediad yn rhan ohono yn her, ac mae hyn yn rhwystro pobl rhag bod yn rhan.

Ymhlith y rheini sydd â nam ar y golwg neu'r clyw, mae llai na chwarter (23%) wedi defnyddio gwasanaethau mynediad - y rhan fwyaf wedi defnyddio is-deitlau (21%). Mae ychydig o dan dri o bob deg (29%) o bobl sydd â nam ar y clyw yn defnyddio is-deitlau, ac mae hyn yn codi i 47% o bobl sydd â nam difrifol. Ychydig iawn sy'n defnyddio disgrifiadau sain ac iaith arwyddion.

² https://www.ofcom.org.uk/__data/assets/pdf_file/0009/40311/tv-access-services-2013.pdf

Er bod ein hymchwil feintiol yn awgrymu lefel gyffredinol o foddhad gyda'r gwasanaethau mynediad, er enghraifft, roedd 68% o'r rheini â nam a oedd yn defnyddio is-deitlau yn fodlon â nhw, roedd ein hymchwil ansoddol yn rhoi persbectif gwahanol. Yma, daeth yn amlwg bod nifer o bryderon ynghylch yr ansawdd; cywirdeb yr is-deitlau (ddim yn adlewyrchu cynnwys y ffilm neu'r rhaglen yn gywir), cywirdeb sillafu, oedi, cyflymder, lliw, lleoliad a maint.

Mae'r ymchwil ansoddol yn dangos hefyd fod pobl sy'n defnyddio disgrifiadau sain yn cael gwasanaeth o ansawdd amrywiol; gyda phwysleisio elfennau anghywir, dim digon o fanylder, cynnig manylion diangen, ac nad oes modd eu clywed yn glir.

Os bydd darpariaeth ac ansawdd y gwasanaethau hyn yn gwella yn ogystal â'u bod yn cael eu hyrwyddo a phobl yn cael eu haddysgu ar sut i'w defnyddio, bydd hyn yn helpu i wella mynediad pobl atynt a gwireddu'r uchelgais i sichrau bod pobl yn gallu bod yn fwy o ran o'r cynnwys. Byddai hyn hefyd yn pwysleisio ymrwymiad y darlledwyr a'u gallu i hyrwyddo cydraddoldeb. Tynnodd un person a gymerodd ran yn ein hymchwil sylw at normaleiddio iaith arwyddion yn y rhaglen deledu i blant bach, 'Mr Tumble': dywedodd fod hyn yn rhoi gobaith iddi na fyddai byddardod ei mab yn golygu y byddai yntau'n profi'r un rhwystrau ag y gwnaeth hi pan oedd yn blentyn, gan fod y rhaglen yn rhoi llwyfan gweladwy i blant sy'n clywed a phlant byddar.

O'n hymchwil, mae tri maes yn codi lle mae rhaniad o ran gwasanaethau mynediad; gwrthgyferbyniad llwyr rhwng y bwriad a'r canlyniad:

- Darpariaeth gwasanaethau mynediad rhwng teledu 'dal i fyny' llinol o'i gymharu â theledu heb fod yn llinol
- Argaeledd o'i gymharu ag ymwybyddiaeth: byddai gwylwyr a gwrandawyr yn gallu cael mynediad at fwy o gynnwys, pe byddent ond yn gwybod bod y gwasanaethau ar gael a sut mae eu defnyddio.
- Amcan o'i gymharu â chanlyniad: dylai gwasanaethau mynediad feithrin teimlad o fod yn rhan, ond gall darpariaeth o ansawdd gwael wneud i rywun deimlo mwy eu bod ar wahân yn lle hynny

Ar ddiwedd yr adroddiad hwn, yn seiliedig ar ganfyddiadau'r ymchwil, rydym yn cynnig sawl argymhelliad ar gyfer camau nesaf i'r rheoleiddiwr, i'r diwydiant ac i'r rhanddeiliaid. Maent mewn pum categori:

- Ymwybyddiaeth
- Ansawdd
- Technoleg

- Argaeledd
- Cwynion ac adborth

Rydym yn gobeithio y bydd yr ymchwil hon yn werthfawr i ddarledwyr ac i ddarparwyr llwyfan, yn ogystal ag elusennau a grwpiau sy'n gweithio gyda phobl sydd yn/wedi colli synhwyrau. Rydym hefyd yn gobeithio y bydd darledwyr yn gweithio gyda chynhyrchwyr dyfeisiau - ac yn eu hannog i sicrhau safonau uchel.